# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 6 Chwefror 2019

Amser y cyfarfod: 13.30

## 188(v3)

## 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau Amserol

Ni ddewiswyd unrhyw Gwestiynau Amserol.

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

## 5 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Deisebau: P-04-628 Mynediad at Iaith Arwyddion Prydain i bawb

(60 munud)

**NDM6952** David J. Rowlands (Dwyrain De Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar Ddeiseb P-04-628 Mynediad at Iaith Arwyddion Prydain i bawb, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Hydref 2018.

## 6 Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) - Diwydiant Dur

(60 munud)

**NDM6950** David Rees (Aberafan)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn croesawu'r buddsoddiadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru i gefnogi dyfodol cynaliadwy i'r diwydiant dur yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

2. Yn cydnabod yr heriau sy'n wynebu diwydiant dur Cymru yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i barhau i gefnogi sector dur Cymru sy'n ddiwydiant allweddol i economi Cymru.

4. Yn galw ar Lywodraeth y DU i fynd i'r afael â chostau uchel ynni sy'n wynebu'r sector dur yn y DU o'i gymharu â chostau trydan yn yr UE.

**Cyd-gyflwynwyr**

John Griffiths (Dwyrain Casnewydd)
Bethan Sayed (Gorllewin De Cymru)
Russell George (Sir Drefaldwyn)
Suzy Davies (Gorllewin De Cymru)
Jayne Bryant (Gorllewin Casnewydd)
Huw Irranca-Davies (Ogwr)
Caroline Jones (Gorllewin De Cymru)

**Cefnogwyr**

Alun Davies (Blaenau Gwent)
Dawn Bowden (Merthyr Tudful a Rhymni)
Jack Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy)
Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)
Vikki Howells (Cwm Cynon)

## 7 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig – Anghydraddoldeb Economaidd Rhanbarthol

(60 munud)

NDM6959 Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

1. Nodi bod anghydraddoldeb economaidd rhanbarthol yn parhau'n amlwg ar draws Cymru, fel sy'n amlwg yn y ffigurau GVA diweddaraf.

2. Yn gresynu bod polisïau Llywodraeth Cymru wedi methu mynd i'r afael ag anghydraddoldebau economaidd rhwng rhanbarthau yng Nghymru.

3. Yn croesawu'r cyfraniad y bydd y fargen dinas-ranbarth Caerdydd, bargen dinas-ranbarth Bae Abertawe, bargen twf y Gogledd a bargen twf y Canolbarth yn eu gwneud i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhanbarthol yng Nghymru.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) gweithio'n adeiladol gyda Llywodraeth y DU i ddarparu bargeinion twf yng Nghymru;

b) adolygu'r cynllun gweithredu economaidd i gynnwys strategaeth i gynyddu cyflogau a ffyniant economaidd ym mhob rhan o Gymru ac ymdrin ag anghydraddoldebau economaidd rhwng y rhanbarthau; ac

(c) hyrwyddo polisi datblygu rhanbarthol ar ôl Brexit sy'n cefnogi cymunedau difreintiedig ledled Cymru, gan gynnwys y rhai hynny y tu allan i orllewin Cymru a'r Cymoedd.

Ffyniant i bawb: cynllun gweithredu ar yr economi

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Rebecca Evans (Gŵyr)**

Dileu popeth a rhoi’r canlynol yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn:

1. Cydnabod pa mor bwysig yw economïau rhanbarthol cryf a chydnerth ar draws pob rhan o Gymru er mwyn sbarduno twf cynhwysol.

2. Nodi’r mesurau traws-lywodraethol a nodir yn y Cynllun Gweithredu ar yr Economi, gan gynnwys penodi prif Swyddogion Rhanbarthol a thimau yn

Llywodraeth Cymru i gefnogi Datblygiad Economaidd Rhanbarthol ar draws Cymru.

3. Nodi'r rôl bwysig sydd gan y Bargeinion Dinesig a'r Bargeinion Twf i'w chwarae o ran sbarduno twf economaidd rhanbarthol pan fyddant yn cael eu cydgysylltu ag ymyriadau ehangach megis seilwaith, trafnidiaeth a sgiliau.

4. Nodi'r cyhoeddiad diweddar bod y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) yn helpu i ddatblygu polisi datblygu economaidd rhanbarthol yng Nghymru ar sail yr arferion gorau yn rhyngwladol.

5. Galw ar Lywodraeth y DU i fynd i'r afael â'r anghydraddoldeb o ran cyllido seilwaith rhwng cenhedloedd a rhanbarthau'r DU ac i wneud mwy i rannu cyfleoedd buddsoddi yn deg ar draws y wlad.

6. Galw ar Lywodraeth y DU i barchu'r setliad datganoli ac i sicrhau mai Llywodraeth Cymru fydd yn gwneud y penderfyniadau strategol ar reoli a gweinyddu trefniadau cyllido yn lle'r cyllid strwythurol, er mwyn mynd i'r afael â'r anghydraddoldeb economaidd rhwng rhanbarthau.

7. Nodi'r ffaith bod cyllidebau rhanbarthol dangosol yn cael eu datblygu ar gyfer buddsoddiad yn yr Economi a Thrafnidiaeth ar draws Cymru.

*[Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliannau 2 a 3 eu dad-ddethol]*

**Gwelliant 2 - Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)**

Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:

Yn nodi bod polisi llymder Llywodraeth y DU, ar y cyd gyda chamreolaeth Llywodraeth Cymru, wedi arwain at gynnydd mawr mewn anghydraddoldeb economaidd rhwng rhanbarthau Cymru.

**Gwelliant 3 - Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)**

Yn is-bwynt (a) ym mhwynt 4, ar ôl 'Llywodraeth y DU' ychwanegu 'ac awdurdodau lleol'.

**Gwelliant 4 - Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw am fil buddsoddiad rhanbarthol, gyda'r nod o sicrhau buddsoddiad ariannol teg dros Gymru i gyd.

**Gwelliant 5 - Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)**

Ychwanegu pwyntiau newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu’r ffaith bod bwrdd prosiect Arfor wedi cael ei gyfarfod cyntaf ac wedi cytuno ar raglen amlinellol o weithgarwch am y ddwy flynedd nesaf.

Yn nodi’r ffaith bod £2 filiwn wedi ei chlustnodi yn y gyllideb ar gyfer cymorth ysgrifenyddiaeth a buddsoddi i Arfor yn ystod 2018-19 a 2019-20 fel blaenoriaeth Plaid Cymru yn y cytundeb ar y gyllideb gyda Llywodraeth Cymru.

Yn cadarnhau pwysigrwydd manteisio ar y cyswllt anhepgor rhwng ffyniant economaidd a ffyniant ieithyddol ar hyd y gorllewin Cymraeg.

## 8 Cyfnod pleidleisio

## 9 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM6957** Hefin David (Caerffili)

Caerffili ddi-blastig, Cymru ddi-blastig:

Beth y gellir ei wneud ar lefel leol a chenedlaethol i leihau llygredd plastig.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 12 Chwefror 2019

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 30/01/2019 i'w hateb ar 06/02/2019

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Helen Mary Jones** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

1 OAQ53343

**(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda theuluoedd cleifion ward Tawel Fan ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr?

**Hefin David** *Caerffili*

2 OAQ53366

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am barcio am ddim ar safleoedd ysbytai yng Nghymru?

**Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

3 OAQ53334

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ariannu gofal iechyd yng Ngogledd Cymru?

**Andrew R.T. Davies** *Canol De Cymru*

4 OAQ53339

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am wasanaethau meddygon teulu yng Nghanol De Cymru?

**David Rees** *Aberafan*

5 OAQ53355

**(e)**

Pa gynnydd sy'n cael ei wneud i wella amseroedd ymateb ambiwlansys yng Ngorllewin De Cymru?

**Sian Gwenllian** *Arfon*

6 OAQ53344

**(w)**

Pa ganllawiau a roddir gan Lywodraeth Cymru i’r byrddau iechyd o ran ymgysylltu a’r cyhoedd ynglyn â newidiadau i wasanaethau?

**Caroline Jones** *Gorllewin De Cymru*

**7** OAQ53351

**(e)**

Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael ag apwyntiadau a gollwyd yn y GIG?

**Michelle Brown** *Gogledd Cymru*

**8** OAQ53362

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am recriwtio i'r GIG yng Nghymru?

**Paul Davies** *Preseli Sir Benfro*

**9** OAQ53331

**(e)**

Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella gwasanaethau iechyd yn Sir Benfro dros y 12 mis nesaf?

**Nick Ramsay** *Mynwy*

**10** OAQ53345

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am adeiladu ysbytai newydd yn ne-ddwyrain Cymru?

**Nick Ramsay** *Mynwy*

**11** OAQ53346

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bwysau'r gaeaf yn y GIG yn ne-ddwyrain Cymru?

**Mark Reckless** *Dwyrain De Cymru*

**12** OAQ53365

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol gwasanaethau obstetreg a gwasanaethau pediatrig cleifion mewnol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan?

**Lynne Neagle** *Torfaen*

**13** OAQ53363

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y defnydd o driniaeth bracitherapi dos uchel ar gyfer canser y prostad?

**Russell George** *Sir Drefaldwyn*

**14** OAQ53340

**(e)**

Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella gwasanaethau trin poen cronig ar gyfer cleifion yng nghanolbarth Cymru?

**John Griffiths** *Dwyrain Casnewydd*

**15** OAQ53368

**(e)**

Pa gamau pellach y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i atal salwch?

# Y Gweinidog Addysg

**Lynne Neagle** *Torfaen*

**1** OAQ53347

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am drafodaethau Llywodraeth Cymru ag awdurdodau lleol yng Ngwent ynghylch darpariaeth y gwasanaeth SenCom?

**John Griffiths** *Dwyrain Casnewydd*

**2** OAQ53370

**(e)**

Beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer parhau i ddatblygu rôl addysg bellach?

**Hefin David** *Caerffili*

**3** OAQ53348

**(e)**

Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd i sicrhau y clywir lleisiau pobl ifanc wrth ddatblygu Cwricwlwm Cymru, Cwricwlwm am Oes?

**Dawn Bowden** *Merthyr Tudful a Rhymni*

**4** OAQ53338

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cymru i addysg oedolion ym Merthyr Tudful a Rhymni?

**Hefin David** *Caerffili*

**5** OAQ53349

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddatblygu Cwricwlwm Cymru, Cwricwlwm am Oes?

**Dawn Bowden** *Merthyr Tudful a Rhymni*

**6** OAQ53342

**(e)**

Sut y bydd y broses o ddiwygio'r cwricwlwm ysgol yn gwella canlyniadau addysgol mewn cymunedau o dan anfantais?

**Nick Ramsay** *Mynwy*

**7** OAQ53350

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am flaenoriaethau cyllido yn y portffolio addysg?

**Llyr Gruffydd** *Gogledd Cymru*

**8** OAQ53364

**(w)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y dimensiwn Cymreig o fewn y cwricwlwm newydd?

**Jack Sargeant** *Alun a Glannau Dyfrdwy*

**9** OAQ53357

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gymorth iechyd meddwl mewn ysgolion?

**Russell George** *Sir Drefaldwyn*

**10** OAQ53367

**(e)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn annog buddsoddiad mewn ymchwil a datblygu?

**David J. Rowlands** *Dwyrain De Cymru*

**11** OAQ53359

**(e)**

Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd i sicrhau y bydd y canlyniadau PISA a gyhoeddir cyn bo hir ar gyfer Cymru yn gwella ar berfformiad y gorffennol?

**Mike Hedges** *Dwyrain Abertawe*

**12** OAQ53330

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effeithiolrwydd y consortia addysg yng Nghymru?

**Andrew R.T. Davies** *Canol De Cymru*

**13** OAQ53341

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog amlinellu targedau Llywodraeth Cymru ar gyfer profion addysg PISA 2021?

**Russell George** *Sir Drefaldwyn*

**14** OAQ53360

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ariannu clybiau brecwast yng nghanolbarth Cymru?

**Darren Millar** *Gorllewin Clwyd*

**15** OAQ53352

**(e)**

Pa broses ymgysylltu sydd sydd gan Lywodraeth Cymru â phrifysgolion Cymru ynghylch y cyrsiau y maent yn eu cynnig i fyfyrwyr?